



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CEFNDIR

Disgyblion yn bresennol mewn ysgolion a gynhelir: adroddiad ansawdd

Gwybodaeth reoli a dynnwyd o systemau ysgolion yng Nghymru ar ddisgyblion sy'n bresennol mewn ysgolion a gynhelir a Unedau Cyfeirio Disgyblion o 7 Medi 2020 ymlaen.

Cyhoeddwyd gyntaf: 21 Hydref 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 21 Hydref 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/disgyblion-yn-bresennol-mewn-ysgolion-gynhelir-adroddiad-ansawdd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cefndir

Cwmpas a chynnwys

Diffiniadau

Cymaroldeb

Gweinyddiaethau eraill y DU

Ystadegau Gwladol

Cefndir

Ers 7 Medi 2020 rydym wedi bod yn casglu a chyhoeddi gwybodaeth gyfanredol ddyddiol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ar ddisgyblion sy'n bresennol yn yr ysgol. Ar yr un pryd rydym wedi bod yn datblygu casgliad ar lefel disgyblion sy'n tynnu data bob wythnos yn uniongyrchol o systemau gwybodaeth rheoli ysgolion. Mae gwybodaeth o'r casgliad hwn bellach yn barod i'w chyhoeddi ac o ddydd Mercher 21 Hydref 2020 bydd yn disodli cyhoeddi data o'r casgliad dyddiol cyfanredol.

Cwmpas a chynnwys

Daw'r data yn uniongyrchol o systemau gwybodaeth rheoli ysgolion. Cesglir y data o'r holl ysgolion meithrin, cynradd, canol, uwchradd ac arbennig a gynhelir ac unrhyw unedau atgyfeirio disgyblion sydd â systemau gwybodaeth reoli o'r fath ac sy'n cofnodi eu gwybodaeth yn electronig fel mater o drefn.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/disgyblion-yn-bresennol-mewn-ysgolion-gynhelir-adroddiad-ansawdd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cesglir y data unwaith yr wythnos ar y penwythnos ac mae'n tynnu'r wybodaeth a gofnodwyd mewn systemau gwybodaeth rheoli ysgolion ar yr adeg honno. Nid ydym yn gofyn i ysgolion ddiweddarau eu cofrestrau yn benodol ar gyfer y casgliad hwn ac felly gall y data a dynnir ar y penwythnos fod yn anghyflawn neu'n dros dro i rai ysgolion ac ar rai dyddiau (yn nodweddiadol y dyddiau hynny agosaf at y dyddiad y gwnaethom dynnu'r data). I gymryd hyn i ystyriaeth, rydym yn casglu'r data ar gyfer pob wythnos mewn dau gasgliad gwahanol. Mae hyn yn caniatáu i ysgolion ddiweddarau cofrestrau ysgolion fel arfer ac i'r wybodaeth gyhoeddedig gael ei diweddarau yn ddiweddarach gyda data mwy cywir a chyflawn.

Mae'r data newydd hwn hefyd yn cynnwys manylion disgyblion fel grŵp blwyddyn, rhyw, cefndir ethnig a hawl i brydau bwyd am ddim. Byddwn yn cyhoeddi disgyblion sy'n bresennol yn ôl nodweddion dethol yn y dyfodol agos.

Mae mwy o wybodaeth am yr hyn rydyn ni'n ei gasglu a'r hyn rydyn ni'n ei wneud ag ef wedi'i gynnwys yn yr [hysbysiad preifatrwydd](#) hwn.

Diffiniadau

Mae'r wybodaeth yn y datganiad hwn yn ymwneud â disgyblion a oedd yn bresennol yn gorfforol ar dir yr ysgol am o leiaf un sesiwn ysgol bob dydd. Mae disgyblion sy'n dysgu gartref oherwydd COVID-19, gan gynnwys dysgu ar-lein, neu nad ydynt fel arall ar dir yr ysgol, yn cael eu cyfrif fel 'ddim yn bresennol' yn y cyd-destun hwn. Yn yr amgylchiadau heriol hyn mae'r casgliad hwn yn caniatáu inni fesur nifer y disgyblion sy'n gwneud ac nad oes ganddynt gyswllt wyneb wrth wyneb â staff a disgyblion eraill yn yr ysgol.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r holl godau cofrestr ysgolion a sut maen nhw'n cael eu defnyddio i gyfrifo'r ystadegau yn y datganiad hwn.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/disgyblion-yn-bresennol-mewn-ysgolion-gynhelir-adroddiad-ansawdd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Codau cofrestr

Cod cofrestr	Disgrifiad	Disgyblion yn bresennol	Nifer y disgyblion
#	Ysgol ar gau I pob disgybl	Nac Ydi	Nac Ydi
/	Presennol yb	Ydi	Ydi
\	Presennol yp	Ydi	Ydi
B	Addysgir oddi ar y safle (nid cofrestriad deuol)	Nac Ydi	Ydi
C	Amgylchiadau awdurdodedig eraill (nas cwmpesir gan god/disgrifiad priodol arall)	Nac Ydi	Ydi
D	Cofrestriad deuol (h.y. mae'r disgybl yn mynd i sefydliad arall)	Nac Ydi	Ydi
E	Wedi'i wahardd ond ni wneir unrhyw ddarpariaeth amgen	Nac Ydi	Ydi
F	Gwyliau teuluol estynedig y cytunwyd arnynt	Nac Ydi	Ydi
G	Gwyliau teuluol (na chytunwyd arnynt neu sesiynau sy'n ychwanegol at yr hyn y cytunwyd arno)	Nac Ydi	Ydi
H	Gwyliau teuluol y cytunwyd arnynt	Nac Ydi	Ydi
I	Salwch	Nac Ydi	Ydi
J	Cyfweliad	Nac Ydi	Ydi
L	Hwyr ond yn cyrraedd cyn i'r gofrestr gau	Ydi	Ydi

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/disgyblion-yn-bresennol-mewn-ysgolion-gynhelir-adroddiad-ansawdd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cod cofrestr	Disgrifiad	Disgyblion yn bresennol	Nifer y disgyblion
M	Apwyntiad meddygol neu ddeintyddol	Nac Ydi	Ydi
N	Ni roddwyd unrhyw reswm eto dros yr absenoldeb	Nac Ydi	Ydi
O	Absenoldeb anawdurdodedig arall (nas cwmpesir gan godau na disgrifiadau eraill)	Nac Ydi	Ydi
P	Gweithgaredd chwaraeon a gymeradwywyd	Nac Ydi	Ydi
R	Diwrnod a neilltuwyd ar gyfer defodau crefyddol yn unig	Nac Ydi	Ydi
S	Absenoldeb astudio	Nac Ydi	Ydi
T	Absenoldeb teithiwr	Nac Ydi	Ydi
U	Hwyr ac yn cyrraedd ar ôl i'r gofrestr gau	Ydi	Ydi
V	Ymweliad neu daith addysgol	Nac Ydi	Ydi
W	Profiad gwaith (nid hyfforddiant seiliedig ar waith)	Nac Ydi	Ydi
X	Sesiynau heb eu rhaglennu ar gyfer disgyblion nad ydynt o oedran ysgol gorfodol	Nac Ydi	Nac Ydi
Y	Cau ysgol yn rhannol a gorfod cau ysgol	Nac Ydi	Ydi
Z	Disgybl ddim ar y cofrestr eto	Nac Ydi	Nac Ydi
-	Marc ar goll	Nac Ydi	Nac Ydi

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/disgyblion-yn-bresennol-mewn-ysgolion-gynhelir-adroddiad-ansawdd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cymaroldeb

Nid oes modd cymharu'r data o 21 Hydref ymlaen â'r data rydym wedi'i gyhoeddi bob dydd er 7 Medi.

Y prif reswm yw bod y data yn y datganiad hwn yn fwy diweddar na'r hyn a gyhoeddwyd yn flaenorol a bydd yn cynnwys data y mae ysgolion wedi'i ddiweddarau ers y cyhoeddiad gwreiddiol o'r data y diwrnod hwnnw. Nid oedd yn bosibl casglu data wedi'i ddiweddarau ar gyfer pob ysgol yng Nghymru gan ddefnyddio'r broses casgliad data blaenorol.

Efallai y bydd rhai gwahaniaethau diffiniol bach hefyd yn y ffordd y mae disgyblion o dan godau cofrestr L, U ac X (gweler y tabl uchod am ddiffiniadau) yn cael eu cyfrif.

Nid oes modd cymharu'r data hwn â'r data presenoldeb a gyhoeddwyd gennym mewn blynyddoedd blaenorol ar gyfer **ysgolion cynradd** ac **ysgolion uwchradd**. Mae'r sesiynau cyfrif data hanesyddol hyn a fynychwyd yn hytrach na chyfrif disgyblion sy'n bresennol yn gorfforol yn yr ysgol. Yn hanesyddol mae disgyblion i ffwrdd o adeilad yr ysgol ar weithgaredd addysgol cymeradwy wedi cael eu cyfrif fel rhai sy'n mynychu ysgol ond at ddibenion y datganiad hwn nid ydyn nhw 'yn bresennol'.

Gweinyddiaethau eraill y DU

Cyhoeddir **data ar gyfer Lloegr** gan yr Adran Addysg.

Cyhoeddir **data ar gyfer yr Alban** gan Lywodraeth yr Alban.

Cyhoeddir **data ar gyfer Gogledd Iwerddon** gan yr Adran Addysg.

Nid oes modd cymharu'r wybodaeth hon â'r data a gyhoeddwyd ar gyfer Cymru. Mae data ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ymwneud â sesiynau ysgol a fynychwyd ac nid i ddisgyblion. Cesglir y data ar gyfer Lloegr o ysgolion ac amcangyfrifir unrhyw ddata sydd ar goll. Mae yna wahaniaethau diffiniol hefyd yn y ffordd y mae disgyblion nad ydyn nhw'n gorfforol yn yr ysgol yn cael eu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/disgyblion-yn-bresennol-mewn-ysgolion-gynhelir-adroddiad-ansawdd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

cyfrif gan y gwahanol wledydd.

Ystadegau Gwladol

Nid yw'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol ac fe'u cynhyrchwyd yn gyflym mewn ymateb i ddatblygu digwyddiadau cenedlaethol a lleol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/disgyblion-yn-bresennol-mewn-ysgolion-gynhelir-adroddiad-ansawdd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Disgyblion yn bresennol mewn ysgolion a gynhelir: adroddiad ansawdd](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/disgyblion-yn-bresennol-mewn-ysgolion-gynhelir-adroddiad-ansawdd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/disgyblion-yn-bresennol-mewn-ysgolion-gynhelir-adroddiad-ansawdd-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).